

Llenyddiaeth Cymru Ysgoloriaethau Cefnogi 2020 – Canllawiau i Ymgeiswyr

Darllenwch y canllawiau diwygiedig isod cyn cwblhau'r ffurflen gais ar gyfer Ysgoloriaeth Cefnogi 2020.

YSGOLORIAETHAU CEFNOGI

Dyfernir **Ysgoloriaethau Cefnogi** yn flynyddol, a gellir eu dyfarnu i awduron ar wahanol adegau yn eu gyrfa. Mae awduron cyhoeddedig ac awduron newydd nad sydd eto wedi cyhoeddi cyfrol o'u gwaith yn gymwys i ymgeisio am Ysgoloriaeth Cefnogi. Mae'r Ysgoloriaeth Cefnogi ar ei newydd wedd yn galluogi awdur i ganolbwyntio ar ddatblygu gwaith penodol sydd ar y gweill, yn un o'r genres cymwys, dros gyfnod o ddeuddeng mis.

Dyfernir **Ysgoloriaeth Cefnogi** er mwyn cynorthwyo awduron sydd ag anawsterau symudedd neu anabledau, sydd angen cyfarpar arbenigol i'w cynorthwyo i ysgrifennu ac ymchwilio'r gwaith ar y gweill.

Gall enghreifftiau cymwys gynnwys nawdd ar gyfer y canlynol:

- prynu cyfarpar arbenigol i gynorthwyo gydag ysgrifennu
- cynorthwyo gyda chostau teithio penodol, yn ymwneud ag ymchwilio'r gwaith ar y gweill
- tuag at gymorth ysgrifenyddol, megis gwaith teipio, argraffu dogfennau ayyb.
- Tuag at gostau cyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol i'ch ysgrifennu

Gall Llenyddiaeth Cymru hefyd ystyried ceisiadau am gymorth gyda materion eraill sy'n berthnasol i awduron ag anawsterau symudedd neu anabledau.

Gall ymgeiswyr ar gyfer **Ysgoloriaeth Cefnogi** ymgeisio am unrhyw swm hyd at £1,000. (Uchafswm Ysgoloriaeth Cefnogi: £1,000). Gall yr Ysgoloriaeth a gynigir fod yn is na'r swm a geisir.

Dyfernir **Ysgoloriaethau Cefnogi** yn bennaf ar gyfer gwaith o'r radd flaenaf, yn ôl safon llenyddol y gwaith. Nid yw'r Ysgoloriaeth Cefnogi yn cael ei glustnodi o ran genre/categori. Oherwydd natur cystadleuol y cynllun, a chyfyngiadau'r nawdd sydd ar gael, fe all y Panel Ysgoloriaethau flaenoriaethu'r ceisiadau sy'n cyrraedd y safon hwn, yn ôl yr angen.

Ni all unrhyw ymgeisydd dderbyn mwy na 3 Ysgoloriaeth i Awduron gan Llenyddiaeth Cymru (yn weithredol o 2011 ymlaen).

I ymgeisio am Ysgoloriaeth Cefnogi 2020, rhaid i ymgeiswyr gwblhau ac anfon 5 dogfen (gorfodol):

1. **Ffurflen Gais Ysgoloriaeth Cefnogi 2020**
 2. **Sampl o'r gwaith ar y gweill** y ceisir nawdd Ysgoloriaeth amdano
 3. **Crynodeb** o'r gwaith ar y gweill (uchafswm 2 dudalen)
 4. **CV awdur** / bywgraffiad (uchafswm 2 dudalen)
 5. **Ffurflen Cydraddoldebau ac Amrywiaeth**. Anhysbys.
- Rhaid i **Awduron Cyhoeddedig** (sydd eisoes wedi cyhoeddi o leiaf un gyfrol o'u gwaith) anfon **UN** copi o un gyfrol, ynghyd ag amlen barod er mwyn dychwelyd y gyfrol.

Yn eich cais, bydd angeni chi nodi'n glir:

- a) yr angen am Ysgoloriaeth Cefnogi ar yr adeg hon yn eich gyrfa fel awdur
- b) sut bydd Ysgoloriaeth Cefnogi yn caniatáu i chi ganolbwyntio ar y gwaith ar y gweill y ceisir y nawdd amdano
- c) sut yr ydych yn bwriadu defnyddio'r swm yr ydych wedi ymgeisio amdano. Bydd angen i chi ddarparu cyllideb o'ch gwariant arfaethedig. Mae gan y Panel Ysgoloriaethau yr hawl i ofyn am ragor o fanylion ynglŷn â'ch cyllideb.

Gall ymgeiswyr am Ysgoloriaeth Cefnogi hefyd ymgeisio am **Ysgoloriaeth Awdur**, os yn *berthnasol*.

Bydd angen i ymgeiswyr ar gyfer **Ysgoloriaeth Awdur** gwblhau **ffurflen gais Ysgoloriaeth Awdur** yn ogystal, a bydd angen nodi'n glir yr angen am Ysgoloriaeth swm penodol o £3,000 yn ogystal â'r Ysgoloriaeth Cefnogi, er mwyn cwblhau'r gwaith ar y gweill.

Cymhwyster ar gyfer Ysgoloriaeth Cefnogi

Dyfernir **Ysgoloriaeth Cefnogi** er mwyn cynorthwyo awduron sydd ag anawsterau symudedd neu anableddau, sydd angen cyfarpar arbenigol i'w cynorthwyo i ysgrifennu ac ymchwilio'r gwaith ar y gweill.

Genres cymwys ar gyfer Ysgoloriaeth Cefnogi

Dyfernir Ysgoloriaethau er mwyn cefnogi awduron sy'n creu gwaith newydd yn y genres canlynol:

- Barddoniaeth
- Rhyddiaith (yn cynnwys nofelau a straeon byrion)
- Rhyddiaith ffeithiol greadigol (yn cynnwys cofiant/hunangofiant, beirniadaeth lenyddol)
- Llenyddiaeth i blant (ffuglen, barddoniaeth)
- Ffuglen i oedolion ifainc
- Nofelau graffeg

Nid yw dramâu, dramâu teledu na sgriptiau yn gymwys ar gyfer nawdd Ysgoloriaethau Awduron.

Ni ellir dyfarnu Ysgoloriaethau ar gyfer cynorthwyo gyda gwaith sy'n rhan o draethawd estynedig, testun ymchwil academiaidd na gwaith cwrs ysgrifennu creadigol, sy'n rhan o astudiaethau cyfredol ar gyfer cwrs gradd neu radd uwch.

Nid yw llyfrau ffeithiol cyffredinol, deunydd addysgiadol, na llyfrau lluniau i blant bach yn gymwys ar gyfer nawdd.

Anfon eich gwaith ar y gweill – Ysgoloriaeth Cefnogi

Gall ymgeiswyr anfon un gwaith ar y gweill gyda'r cais, yn un o'r genres cymwys. Gweler y manylion isod:

RHYDDIAITH

FFUGLEN

Isafswm: 5,000 o eiriau. Uchafswm: 8,000 o eiriau.

Straeon byrion: a wnewch chi anfon mwy nag stori fer. Os ydy'r casgliad arfaethedig yn llai na chyfanswm o 5,000 o eiriau, dylid anfon draft llawn.

FFUGLEN OEDOLION IFAINC:

Isafswm 5,000 o eiriau. Uchafswmn: 8,000 o eiriau.

Os ydy'r gyfrol arfaethedig yn llai na chyfanswm o 5,000 o eiriau, dylid anfon draft llawn.

FFUGLEN I BLANT:

Isafswm: 5,000 o eiriau. Uchafswm: 8,000 o eiriau.

Os ydy'r gyfrol arfaethedig yn llai na chyfanswm o 5,000 o eiriau, dylid anfon draft llawn.

LLENYDDIAETH FFEITHIOL GREADIGOL:

Isafswm: 5,000 o eiriau. Uchafswm: 8,000 o eiriau.

BARDDONIAETH:

10 cerdd.

Isafswm: 10 cerdd. Uchafswm: 10 cerdd. (Uchafswm: 10 tudalen)

NOFELAU GRAFFEG:

Crynodeb— 1 tudalen yn crynhoi'r gwaith ar y gweill (testun yn unig)

Sampl gwaith ar y gweill: Isafswm: 10 tudalen. Uchafswm: 10 tudalen.

Dyliai'r sampl o'r gwaith ar y gweill gynnwys testun ac o leiaf un tudalen wedi'i ddylunio (storyboard).

Cymhwyster – Ysgoloriaeth Cefnogi

- Rhaid i ymgeiswyr breswyllo yng Nghymru gydol y flwyddyn. Mae awduron sydd â gwaith ar y gweill yn y Gymraeg sy'n byw tu allan i Gymru yn gymwys yn ogystal. [Caniateir cyfnodau i ffwrdd ar gyfer ymchwil a theithio os yw'n berthnasol i'r gwaith ar y gweill.] Bydd angen i ymgeiswyr ddarparu prawf o'u preswylfa, os gofynnir.
- Os ydych wedi derbyn Ysgoloriaeth Cefnogi yn y gorffennol, fe ellir ymgeisio am Ysgoloriaeth Cefnogi 2020. Ni all unrhyw ymgeisydd dderbyn mwy na cyfanswm o **3** Ysgoloriaeth Cefnogi (yn berthnasol o 2011 ymlaen).
- Ardal daearyddol yw trwy Gymru gyfan. Tu hwnt i Gymru dim ond lle bo'r gwaith ar y gweill yn y Gymraeg.
- Dyfernir Ysgoloriaethau yn bennaf ar gyfer gwaith o'r radd flaenaf. Oherwydd natur cystadleuol y cynllun, fe all y Panel Ysgoloriaethau flaenoriaethu'r ceisiadau sy'n cyrraedd y safon hwn, yn ôl yr angen.
- Dyfernir Ysgoloriaeth i awdur unigol. Rhaid i'r gwaith ar y gweill fod gan unigolyn. Ni ddyfernir Ysgoloriaeth i waith ar y cyd na phrosiectau ar y cyd.
- Mae Llenyddiaeth Cymru yn rhan o Gynllun Bwrsariaethau Creadigol Weston Jerwood, sy'n cefnogi sefydliadau celfyddydol i wella eu dulliau recriwtio a datblygu talent. Rydym wedi ymrwymo i groesawu ymgeiswyr o ystod helaeth o gefndiroedd, sy'n cynnwys asesu ceisiadau yn rhannol ar sail eu potensial.

Cymhwyster – Gwobrau a Grantiau eraill

- **Grantiau Comisiwn Cyngor Llyfrau Cymru**
Os ydych wedi derbyn grant gomisiwn gan Gyngor Llyfrau Cymru, nid ydych yn gymwys i gael eich hariannu dan gynllun Ysgoloriaeth i Awduron ar gyfer yr un gwaith ar y gweill. Dylid cyfeirio ymholiadau ynglŷn â grantiau cyhoeddi at Gyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan, Aberystwyth, SY23 2JB (01970 624151 / <http://www.clc.org.uk/>)

Ysgoloriaeth Cefnogi – enghreifftiau sy'n gymwys ar gyfer nawdd

- Fe all awduron ag anableddau neu phroblemau symudedd ymgeisio ar gyfer nawdd **Ysgoloriaeth Cefnogi** tuag at gostau cyfarpar arbenigol er mwyn cynorthwyo gydag ysgrifennu.
- Am gymorth gyda chostau teithio personol yn ymwneud ag ymchwilio'r gwaith ar y gweill.
- Mae enghreifftiau'n cynnwys: ymweld â llyfrgelloedd, amgueddfeydd, lleoliadau penodol, cyfarpar arbenigol ar gyfer ysgrifennu (e.e. meddalwedd adnabod llais)
- Fe'ch cynghorir i ymgeisio am y swm penodol sydd arnoch ei angen, hyd at £1,000.

Enghreifftiau nad sy'n gymwys ar gyfer nawdd

- Nid yw Ysgoloriaethau Cefnogi yn cefnogi dynlunio / lluniau, ffotograffiaeth, deunydd ysgrifennu, datblygu gwefannau, costau ffôn a rhynggrwyd, marchnata, argraffu, hunan-gyhoeddi neu gostau cyhoeddi, ffioedd cyrsiau addysg bellach / uwch.
- Nid yw cyrsiau / encilion Canolfan Ysgrifennau Tŷ Newydd yn gymwys ar gyfer nawdd gan Ysgoloriaethau i Awduron Llenyddiaeth Cymru. Mae Tŷ Newydd yn rhan o Llenyddiaeth Cymru.

Amserlen ar gyfer Ysgoloriaethau Cefnogi ac Ysgoloriaethau Awduron 2020:

Bydd cyfnod Ysgoloriaethau'n dechrau o Chwefror 2020 tan 31 Ionawr 2021. Rhaid cwblhau pob Ysgoloriaeth erbyn **31 Ionawr 2021**.

Amodau – Ysgoloriaeth Cefnogi

Bydd angen i awduron sy'n derbyn yr Ysgoloriaeth hon anfon adroddiad diwedd tymor, gyda sampl pellach o'r gwaith ar y gweill, a phrawf o'r gwariant (e.e. rhestr fanwl gyda'r symiau, anfonebau, talebau neu ddatganiad ariannol). Gall methu â darparu tystiolaeth gwariant arwain at fynd i gyfraith, a gall effeithio ar unrhyw geisiadau gennych ar gyfer Ysgoloriaeth yn y dyfodol.

- Bydd Llenyddiaeth Cymru yn gofyn am gopi cyfarch o unrhyw waith a gyhoeddir o ganlyniad i'r Ysgoloriaeth.
- Rhaid i unrhyw waith a ddechreuwyd, datblygwyd neu gwblhawyd yn ôl amodau'r Ysgoloriaeth gynnwys cydnabyddiaeth i **Llenyddiaeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol, drwy Gyngor Celfyddydau Cymru**. Rhaid trafod yr union eiriad gyda Llenyddiaeth Cymru cyn cyhoeddi.

Taliadau i dderbynwyr Ysgoloriaeth Cefnogi

Telir yr Ysgoloriaeth Cefnogi mewn un taliad ar ddechrau'r cyfnod Ysgoloriaeth.

Dyfernir Ysgoloriaethau i awdur unigol ac mae'r Ysgoloriaeth Cefnogi yn daladwy i'r unigolyn. Ni ellir talu'r Ysgoloriaeth Cefnogi i gyflogwr, sefydliad, cymdeithas na sefydliad addysg, dan unrhyw amgylchiadau.

Gwybodaeth Ychwanegol

Incwm a Threth Incwm:

- Bydd angen i chi gadarnhau gyda Chyllid y Wlad unrhyw oblygiadau treth personol sy'n deillio o'r Ysgoloriaeth. Mae awduron sy'n derbyn Ysgoloriaeth yn gyfrifol yn bersonol am unrhyw oblygiadau treth sy'n deillio o'r Ysgoloriaeth. Dylai ymgeiswyr ofyn am gyngor proffesiynol ar y mater hwn.
Ceir rhagor o wybodaeth am awduron a threth yn *The Writers' and Artists' Yearbook 2019* (Bloomsbury).
- Nid yw Ysgoloriaethau yn cynnwys T.A.W. ac ni ellir hawlio T.A.W. ar gyfer yr Ysgoloriaeth gan Llenyddiaeth Cymru.
- Ar gyfer Ysgoloriaethau a anelir at bryniannau cyfalaf (ar gyfer awduron â phroblemau symudedd neu anabledau yn unig), teithio, ymchwil ayyb, mae Cyllid y Wlad yn debygol o gyfrifo atebolrwydd treth. Eto, dylai ymgeiswyr ofyn am gyngor proffesiynol ar y mater hwn.

ANFON EICH CAIS

Rhaid anfon ceisiadau trwy ebost, gyda 5 dogfen wedi'i atodi, dogfen Word neu: PDF

1. **Ffurflen Gais Ysgoloriaeth Cefnogi 2020** wedi'i chwblhau
2. **Sampl o'r gwaith ar y gweill** y ceisir yr Ysgoloriaeth amdano. Dylid teipio'r gwaith ar y gweill a'i gyflwyno mewn dogfen Word neu PDF. Dylid nodi rhif pob tudalen. Defnyddiwch ffont safonol, pwynt maint 11 neu 12.
3. **Crynodeb o'r gwaith ar y gweill** (uchafswm 2 dudalen)
4. **Eich CV awdur** (uchafswm 2 dudalen) neu fywgraffiad awdur
5. **Ffurflen Cydraddoldebau ac Amrywiaeth**. Anhysbys. Ni ddyliech rhoi eich enw yn nheitol y ddogfen hon.

Nodwch eich enw yn nheitol pob ffeil i'w ebostio. E.e. CV Rhys Jones; Cais Ysgoloriaeth Rhys Jones, Crynodeb Rhys Jones, ac eithrio'r ffurflen monitro.

- **Cyrol i gefnogi'r cais.** Yn ogystal, rhaid i awduron cyhoeddedig (sydd wedi cyhoeddi o leiaf 1 gyrol o'u gwaith) anfon **UN** copi o un gyrol printiedig, drwy'r post. Dylid cynnwys **amlen barod â stamp**, er mwyn i Llenyddiaeth Cymru ddychwelyd cyrol a gyflwynwyd gyda'ch cais Ysgoloriaeth. Peidiwch defnyddio label wedi ei ffrancio (mae hwn yn ddilys ar y dyddiad argraffu yn unig). Sicrhewch bod yr amlen y maint cywir ar gyfer eich cyrol.
- **Rhaid anfon ceisiadau trwy ebost** i Llenyddiaeth Cynru, at y cyfeiriod penodol Cais@llynyddiaethcymru.org NEU Apply@literaturewales.org
- **Mae croeso i ymgeiswyr ar gyfer Ysgoloriaeth Cefnogi sydd angen cymorth i gwblhau ffurflen gais gysylltu â Llenyddiaeth Cymru o leiaf pythefnos cyn y dyddiad cau, er mwyn trefnu sgwrs ffôn neu gyfarfod wyneb-yn-wyneb.**
- Mae Llenyddiaeth Cymru yn croesawu unrhyw ymholiadau ynglŷn a manylion eich cais. Os ydych yn cael anhawster i gwblhau cais trwy ebost, rhowch wybod i ni o leiaf pythefnos cyn y dyddiad cau, ac fe ellir trefnu dull arall i chi gyflwyno eich cais.
- Noder nad oes adnoddau i dderbyn ceisiadau gan ymgeiswyr yn bersonol tu allan i oriau craidd y swyddfa, sef Llun – Gwener 9.30 – 5.00 pm.
- Ni dderbynnir ceisiadau hwyr.
- Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw sicrhau bod cais yn cyrraedd Llenyddiaeth Cymru erbyn **5.00 pm ar y dyddiad cau**.
- Ni all Llenyddiaeth Cymru dderbyn cyfrifoldeb am geisiadau a aiff ar goll wrth eu hanfon neu yn y post.

**DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU YSGOLORIAETHAU CEFNOGI 2020:
5.00 PM DYDD MAWRTH 10 MEDI 2019**

Anfonwch eich cais i'r cyfeiriad ebost penodol isod:
Cais@llenyddiaethcymru.org NEU Apply@literaturewales.org

Peidiwch anfon eich cais at unrhyw gyfeiriad ebost arall yn Llenyddiaeth Cymru.

Llenyddiaeth Cymru

Canolfan Glyn Jones Canolfan Mileniwm Cymru, Bute Place, Caerdydd CF10 5AL
ffôn: 029 2047 2266

post@llenyddiaethcymru.org

www.llenyddiaethcymru.org

Beth sy'n digwydd nesaf:

Caiff eich cais ei wirio er mwyn sicrhau bod y cais yn gymwys ar gyfer ein nawdd.

Caiff y data personol rydych yn ei ddarparu yn **y ffurflen gais** ei brosesu gan Llenyddiaeth Cymru er mwyn gweinyddu eich cais am nawdd. Cedwir y data hwn trwy gyfnod y broses ymgeisio, ac am gyfnod rhesymol ar gyfer adrodd yn ôl a gwerthuso. Mae'r data a ddarperir yn y **ffurflen Cydraddoldebau ac Amrywiaeth** yn anhysbys, ac fe'i defnyddir at ddibenion monitro yn unig.

Byddwch yn derbyn llythyr cydnabod. Os nad yw'r cais yn gymwys neu'n gyflawn, byddwn yn cysylltu â chi.

Amserlen asesu:

Bydd y Panel Ysgoloriaethau yn asesu'r ceisiadau Ysgoloriaethau yn ystod y tri mis sy'n dilyn y dyddiad cau (rhwng Medi - Tachwedd 2019). Bydd y Panel Ysgoloriaethau yn cyfarfod ar ddiwedd y cyfnod asesu (Tachwedd 2019). O fewn chwech wythnos i'r cyfarfod penderfynu, bydd pob ymgeisydd yn derbyn llythyr yn eu hysbysu o ddyfarniad y Panel. Tybir caiff ymgeiswyr llwyddiannus eu hysbysu erbyn canol mis Rhagfyr 2019. Tybir y cyhoeddir enwau'r ymgeiswyr llwyddiannus o fewn saith wythnos ar ôl y cyfarfod Panel (Ionawr 2020). *Fe all y dyddiadau yn yr amserlen hon newid.*

Llenyddiaeth Cymru yw'r cwmni cenedlaethol gyda chyfrifoldeb dros ddatblygu llenyddiaeth. Ein gweledigaeth yw Cymru sydd yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau drwy lenyddiaeth.

Mae Llenyddiaeth Cymru yn elusen gofrestredig ac yn gweithio gyda chefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru.

Cefnogir Ysgoloriaethau Llenyddiaeth Cymru a Chynllun Mentora Llenyddiaeth Cymru gan Y Loteri Genedlaethol drwy Gyngor Celfyddydau Cymru.



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Supported by
The National Lottery[®]
through the Arts Council of Wales

Cefnogwyd gan
Y Loteri Genedlaethol
trwy Gyngor Celfyddydau Cymru